ADRODDIAD SENEDD YR YSGOL - TYMOR Y GWANWYN 2026

SCHOOL PARLIAMENT REPORT - SPRING TERM 2026



LLAIS LLANTRISANT *LLANTRISANT VOICE*

Mae aelodau'r pwyllgor yn cwrdd yn fisol er mwyn dewis Hawl y Mis. Hawl y Mis ar gyfer mis Mawrth yw Hawl #12 - "Mae gen i hael i gael gwrandawiad ac i gael fy nghymryd o ddifri". Rydym yn parhau i agor y blychau syniadau ac ymateb i unrhyw awgrymiadau. Rydym wedi derbyn offer chwarae newydd ar iard yr ysgol ar gyfer plant Cam Cynnydd 1 trwy Tesco. Byddwn yn trafod yr offer yma mewn gwasanaeth ysgol gyfan i dynnu sylw'r plant at yr offer newydd. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r staff i leisio ein barn ar y Cwricwlwm a'r awgrymiadau sydd gennym i ddatblygu y chwe maes ymhellach. Byddwn yn cynnal gwasanaeth ar hawliau wythnos nesaf, gan ffocysu ar gydraddoldeb oherwydd ei bod yn fis hanes merched. Yn ogystal, rydym yn mynd i helpu Mr O'Neil gydag asesiadau iechyd a lles o'r safle.

The members of the committee meet monthly in order to choose the Right of the Month. The Right of the Month for March is Right #12 - "I Have the right to be listened to and taken seriously". We continue to open the comment boxes that can be seen around the school and respond to any suggestions. We have received new play equipment in the school yard for Stage 1 children through the Tesco grant scheme. We will discuss this play equipment in a whole school assembly to draw the children's attention to them. Recently we have been working with staff to voice our opinion about the Curriculum and make suggestions as to how the 6 Areas of Learning can be developed. We will be conducting an assembly next week, focusing on equality as it is Women's History Month. Also, we will be helping Mr O'Neil to conduct health and safety assessments of the school grounds.



DINASYDDION DOETH *WISE CITIZENS*

Mae'r Dinasyddion Doeth ar hyn o bryd yn gweithredu nifer o brosiectau i hybu gofal am yr amgylchedd a lleihau gwastraff yn yr ysgol. Rydym yn mynd i gynnal cystadleuaeth i greu cymeriad mas o sbwriel sy'n adlewyrchu gwerthoedd YGGGLlantrisant megis siarad Cymraeg, lles a gofalu am yr amgylchedd. Rydym hefyd yn annog disgyblion i ddod â boscys wyau Pasg o adref ar gyfer her Pasg cyngor RCT. I leihau gwastraff papur, byddwn yn hybu defnyddio'r sgrîn a phlatfformau digidol fel Google Classroom yn hytrach na thaflenni papur, gan sicrhau cydbwysedd gyda'r amser sgrîn. Ar dir yr ysgol, rydyn ni'n mynd i blannu planhigion, gan dyfu lafant gan obeithio creu bagiau persawrus i'w gwerthu yn nes ymlaen. Mae'r pwyllgor yn parhau i hybu ymdrech casglu batris ac hefyd wedi helpu casglu cardiau Nadolig ar gyfer cystadleuaeth ailgylchu cardiau RCT. Rydym hefyd yn bwriadu cychwyn casglu plastig meddal i'w ailgylchu hefyd.

The Wise Citizens are currently running a number of projects to promote care for the environment and reduce waste in the school. We are going to hold a competition to create a 'character out of waste' that reflects YGGG Llantrisant's values such as speaking Welsh, well-being and caring for the environment. We will also encourage pupils to bring Easter egg boxes from home for the RCT council Easter challenge. To reduce paper waste, we will promote the use of screens and digital platforms such as Google Classroom instead of sheets of paper, ensuring a balance with screen time. On the school grounds, we are going to plant plants, growing lavender in the hope of creating scented bags to sell later. The committee continues to promote the battery recycling competition and has also helped collect Christmas cards for the RCT card recycling competition. We also plan to start collecting soft plastics to be recycled.



Y CRIW CYMWYNASGAR *THE HELPING HANDS*

Y tymor yma, byddwn yn parhau i ddatblygu y 'Llecyn Lles' draw yn y caban ac rydyn ni wedi penderfynu yr hoffen ni ddatblygu ardal dawel ar yr iard hefyd. Rydyn ni am greu ardal les ar gyfer plant sydd eisiau amser tawel neu sy'n teimlo'n unig ac sydd eisiau siarad gydag aelod o'r Criw Cymwynasgar. Mae'r ardal yma am fod tu allan i'r Ystafell Gerdd. I helpu pawb i adnabod yr ardal yma, rydyn ni wedi trefnu cystadleuaeth i blant greu poster arbennig, ac mae yna wobr fach i'r enillydd! Byddwn yn cwrdd eto i ddewis y poster buddugol ac i drafod sut gallwn ni ddatblygu'r ardal ymhellach. Rydyn ni wedi sôn am blannu blodau

mewn potiau ar safle'r ysgol i greu awyrgylch mwy croesawgar. Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau â'n syniadau yn ein cyfarfod nesaf.

This term, we will continue to develop the 'Llecyn Lles' (wellbeing hub) over in the cabin and, in addition, we would like to develop a quiet area on the yard. We want to create a wellbeing area for children who want quiet time or for those that feel lonely and what to chat with a member of committee. This area is to be outside the music room. To help everyone know where this area is, we have organised a competition for children to create a poster, and there is a small prize for the winner. We will meet again to choose the winning poster and discuss how we can further develop the area. We have talked about planting flowers around the school site to create a more welcoming environment. We are looking forward to developing our ideas at the next meeting.



YSGOLION IACH *HEALTHY SCHOOLS*

Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn hybu iechyd a lles yn yr ysgol dros dymor yr Hydref. Rydyn ni wedi helpu i redeg y prosiect 'Filltir Fawr a'r Wythnos Chwaraeon'. Fe wnaethon ni drefnu i bawb redeg neu gerdded milltir bob dydd, ac roedd chwaraeon gwahanol ar y cwrt bob amser chwarae ac amser cinio. Fe wnaethon ni gasglu barn y disgyblion trwy arolwg ac wedyn siarad â'r Pwyllgor Ysgolion Iach i wneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i symud, cael hwyl ac efallai darganfod camp newydd. Fe wnaethon ni helpu i fesur yr iard, creu amserlen glir ac ystyried pa offer oedd ei angen. Rydyn ni'n falch iawn o sut mae'r prosiect yn mynd oherwydd mae'n gwneud i bawb symud, gwenu a mwynhau amser gyda ffrindiau. Mae siop ffrwythau'r ysgol dal i fod yn llwyddiant mawr hefyd, ac rydyn ni wedi cael cyfarfod i benderfynu beth i wario'r elw arno. Y syniadau oedd prynu mwy o offer chwaraeon a threfnu ymweliadau gan arbenigwyr i roi gweithdai fel tenis bwrdd, badminton a dawns. Ar hyn o bryd rydyn ni hefyd yn trefnu gwasanaeth arbennig i hybu bod yn iach yn yr ysgol. Rydym hefyd yn trefnu 'mini marathon' er mwyn cyd-fynd â marathon Llundain. Rydyn ni'n hapus iawn gyda'n gwaith hyd yn hyn ac yn edrych ymlaen at wneud mwy yn y tymhorau nesaf.

We have been very busy promoting health and wellbeing in school during the Autumn term. We helped to run the 'Daily Mile and Sports Week' project. We organised for everyone in the school to run or walk a mile every day, and we set up different sports on the yard during playtime and lunchtime. We collected pupils' opinions through a survey and then talked to the Healthy Schools Committee to make sure everyone had the chance to move, have fun and maybe discover a new sport. We helped to measure the yard, make a clear timetable and think about the equipment needed. We are very proud of how well the project is going because it's helping everyone to stay active, smile and enjoy time with friends. The fruit shop is still a big success too, and we have had a meeting to decide what to spend the profit on. Our ideas were to buy more sports equipment and to organise visitors to come in and run workshops like table tennis, badminton and dance. We are also busy planning a special assembly to promote being healthy in school. In addition, we are organizing a 'mini marathon' to coincide with the London marathon. We are very happy with our work so far and excited to do even more next term.



Y CRIW DIGIDOL *THE DIGITAL CREW*

Mae'r Pwyllgor Digidol wedi bod yn gweithio'n galed yn datblygu gwybodaeth am seiberfwlio yn yr ysgol yn ystod tymor yr Hydref. Fe wnaethon ni gynnal cystadleuaeth poster gwybodaeth am seiberfwlio drwy'r dosbarthiadau Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6, gan dynnu sylw at arwyddion seiberfwlio a sut i'w atal yn yr ysgol a thu allan iddi. Bydd y poster buddugol yn cael ei osod ar fwrdd arddangos ein Pwyllgor Digidol yn yr ysgol, gan arddangos sgiliau cymhwysedd digidol y plant a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd digidol. Roedden ni'n falch iawn o weld dealltwriaeth y plant o ddiogelwch ar-lein a'u gallu i'w gyfleu mewn ffordd fynegiannol. Mae'r Criw Digidol wedi cynnal gwasanaeth ar ddiogelwch ar-lein ac wedi bod yn cydweithio ar churadu llawer o syniadau ar gyfer dysgu pellach ar gyfer cymhwysedd digidol, gan gynnwys parhau i ddatblygu y clwb amser cinio. Rydym yn edrych ymlaen at ddod yn aelodau mwy cymwys yn ddigidol ac yn aelodau moesegol o'r gymuned.

The Digital Committee have been hard at work developing knowledge of cyberbullying in the school during the Autumn term. We ran a cyberbullying informational poster competition through the Year 3 to Year 6 classes, highlighting the signs of cyberbullying and how to prevent it both in and outside of school. The winning poster will be placed on our Digital Committee display board in the school, showcasing the children's digital competency and knowledge and understanding of the digital world. We were very proud to see the children's understanding of online safety and ability to convey it in an expressive way. The Digital Committee members have also held an internet safety assembly and have collaborated and curated many ideas of further learning for digital competency, including plans to further develop the lunchtime club. We are looking forward to continue becoming more digitally competent and ethical members of the community.

Y CRIW CYMRAEG *THE WELSH CREW*



Mae'r Criw Cymraeg wedi parhau i weithio'n galed i hybu'r defnydd o'r Gymraeg eto eleni. Tymor diwethaf, fe wnaethon ni gymharu canlyniadau holiadur y Siarter Iaith a gwelsom fod mwy o ddisgyblion nawr yn dweud eu bod yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg o gymharu â'r un adeg y flwyddyn gynt. Rydyn ni'n parhau i osod Trac yr Wythnos ar gyfrif Spotify y Criw Cymraeg ac yn hysbysu hyn ar Instagram hefyd. Eleni, rydyn ni wedi penderfynu targedu'r defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd 3 phlentyn o bob dosbarth (Blwyddyn 3-6) yn cael eu dewis fel un o'r "Cymry Cudd" fydd yn gwrando ar blant yn y coridorau ac ar yr iard, ac yna'n adrodd nôl i'r athrawon. Bydd y rheini sydd wedi bod yn siarad Cymraeg da ac yn rheolaidd yn symud i fyny'r siart iaith. Rydym hefyd yn bwriadu creu cyfres newydd o gystrawennau Cymraeg ar Instagram i helpu rhieni sydd wedi gofyn am fraweddegau ac ymadroddion defnyddiol.

The Criw Cymraeg has continued to work hard to promote the use of the Welsh language again this year. Last term, we compared the results of the Language Charter survey and saw that more students now say they listen to Welsh music compared to the same time last year. We continue to post Track of the Week on the Criw Cymraeg's Spotify account and also share this on Instagram. This year, we have decided to target the use of Welsh outside the classroom. Three children from each class (Years 3-6) will be chosen as one of the 'Cymry Cudd' who will listen to children in the corridors and on the yard, and then report back to the teachers. Those who have been speaking Welsh well and regularly will move up the language chart. We also plan to create a new series of Welsh phrases on Instagram to help parents who have asked for handy phrases and expressions.